

# Adroddiad Arolygu Ysbyty (Dirybudd) Wardiau 10, 14 ac 16, Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Bobl Hŷn, Ysbyty Llandochau, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Dyddiad yr arolygiad: 23, 24 a 25 Mawrth 2026  
Dyddiad cyhoeddi: 25 Mehefin 2026



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163  
E-bost: [agic@llyw.cymru](mailto:agic@llyw.cymru)  
Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

## Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddi-dduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

## Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

## Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



# Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom .....	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad .....	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym .....	12
	• Ansawdd Profiad y Claf .....	12
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol .....	16
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .....	22
4.	Y camau nesaf .....	25
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad .....	26
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith .....	27
	Atodiad C - Cynllun gwella .....	35

# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd yn Ysbyty Llandochau, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar 23, 24 a 25 Mawrth 2026. Adolygwyd wardiau canlynol yr ysbyty yn ystod yr arolygiad hwn:

- Ward 10 - 14 o welyau yn darparu gofal dementia i bobl hŷn
- Ward 14 - 14 o welyau yn darparu gofal dementia i bobl hŷn
- Ward 16 - 14 o welyau yn darparu gofal dementia i bobl hŷn.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o arolygwyr gofal iechyd AGIC, tri adolygydd cymheiriaid clinigol (yr oedd un ohonynt yn adolygydd enwebedig o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl) ac un adolygydd profiad y claf.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur i ddweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn ar weithio i'r gwasanaeth i ni. Cwblhawyd cyfanswm o chwe holiadur gan gleifion neu eu gofalwyr ac ni chwblhawyd yr un holiadur gan y staff. Gwnaethom hefyd siarad â'r staff a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth yn ystod ein harolygiad. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

## 2. Crynodeb o'r arolygiad

### Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Roedd y cleifion yn cael eu helpu i gynnal eu hiechyd a'u llesiant gan fod gweithgareddau a chyfleoedd ystyrion ar gael iddynt a oedd yn adlewyrchu eu diddordebau a'u galluoedd unigol. Roedd nyrsys ailffocysu dynodedig a gwirfoddolwyr yn chwarae rôl flaenllaw yn trefnu gweithgareddau ac yn treulio amser gyda'r cleifion, a oedd yn eu helpu i ymgysylltu a rhyngweithio'n gymdeithasol ac yn cefnogi eu llesiant emosiynol. Dywedodd y cleifion wrthym yn gyson eu bod yn gwerthfawrogi cael gweithgareddau pwrpasol yn ystod y dydd a'u bod yn gwerthfawrogi bod y staff yn cymryd amser i siarad â nhw a rhoi sicrwydd iddynt.

Roedd ardal awyr agored ar gael i'r cleifion ac ymwelwyr, y gallent ei chyrraedd drwy falconi'r ward. Roedd y staff hefyd yn helpu'r cleifion i adael y safle dan oruchwyliaeth, gan gynnwys mynd gyda'r cleifion i amwynderau lleol, a oedd yn hyrwyddo eu hannibyniaeth a'u llesiant.

Roedd gofal yn cael ei ddarparu gydag urddas, caredigrwydd a thosturi. Roedd y staff a'r cleifion yn rhyngweithio â'i gilydd mewn ffordd dawel a pharchus, a dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu trin ag urddas ac ymddiriedaeth. Roedd y staff yn cefnogi gofal personol yn sensitif, yn cynnal preifatrwydd ac yn annog y cleifion i bersonoli eu hystafelloedd er mwyn creu amgylchedd mwy cartrefol, gan sicrhau bod trefniadau diogelwch priodol ar waith ar yr un pryd.

Roedd y gofal a ddarperir yn ymatebol ac wedi'i deilwra at yr unigolyn, ac roedd y cleifion yn cael eu cefnogi i wneud dewisiadau am eu trefn o ddydd i ddydd, eu gweithgareddau, a'u prydau bwyd. Roedd y cofnodion gofal yn cynnwys cynlluniau wedi'u personoli, mewnbwn amlddisgyblaethol, a chyfraniad gan y teulu lle bo hynny'n briodol. Roedd y cleifion yn cael gofal amserol, ac roedd y staff yn ymateb yn syth i geisiadau am gymorth ac yn rhoi sicrwydd i'r cleifion ac yn eu llonyddu yn ôl yr angen. Ar y cyfan, roedd y systemau'n cefnogi cyfathrebu, cydraddoldeb, hawliau cleifion, a gofal diogel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Fodd bynnag, yn ystod yr arolygiad, nodwyd pryderon difrifol a oedd yn effeithio'n uniongyrchol ar urddas, cysur a phrofiad cyffredinol y cleifion. Nid oedd cyflwr a glendid rhai wardiau ac ardaloedd cymunedol, a'r balconi awyr agored a'r gerddi, yn cynnig amgylchedd diogel na therapiwtig i bobl hŷn sy'n byw gyda dementia. Mae'r materion hyn yn peri pryder penodol pan fo'r cleifion yn dibynnu ar

amgylchedd y ward i barhau i deimlo'n gyfarwydd yn eu cynefin, rhoi sicrwydd iddynt a chynnal eu hurddas.

Gwelsom hefyd wendidau o ran systemau ymarferol sy'n bwysig i'r cleifion a'u teuluoedd, gan gynnwys systemau ar gyfer rheoli eiddo personol a gwaith cynnal a chadw rheolaidd ar gymhorthion cyfarwyddo. Roedd angen gwella'r hysbysfyrddau gwybodaeth i gleifion hefyd er mwyn sicrhau bod gwybodaeth glir a chyfredol ar gael i bobl am rolau'r staff a sut i godi pryderon.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Adolygu a diweddarau'r hysbysfyrddau gwybodaeth i gleifion er mwyn sicrhau eu bod yn gywir, yn glir ac yn gyfredol, gan gynnwys gwybodaeth am rolau'r staff a sut i godi pryderon.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd yn darparu ystod eang o weithgareddau ystyrlon, therapiwtig a difyr
- Roedd yn trin y cleifion ag urddas, caredigrwydd a pharch, gan hyrwyddo amgylchedd diogel a chefnogol
- Roedd yn darparu gofal amserol, wedi'i bersonoli sy'n cefnogi dewisiadau, annibyniaeth a llesiant y cleifion.

## **Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol**

Crynodeb cyffredinol:

Gwelodd AGIC ddarlun cymysg yn y wardiau a arolygwyd. Roedd meysydd o ymarfer cryf, gan gynnwys trefniadau priodol ar y cyfan i roi meddyginiaethau, a gwaith amlddisgyblaethol cryf. Roedd prosesau cynllunio gofal, monitro iechyd corfforol, maeth a chadw cofnodion yn gyson gryf, ac roedd dogfennau'r Ddeddf Iechyd Meddwl a gwybodaeth am hawliau'r cleifion yn cydymffurfio'n llawn.

Fodd bynnag, ni chafodd AGIC sicrwydd bod trefniadau effeithiol i reoli risgiau ac atal a rheoli heintiau ar waith bob amser. Gwnaethom nodi nifer o risgiau o ran yr amgylchedd, pwyntiau clymu, ac iechyd a diogelwch, yn ogystal â safonau gwael o lendid a hylendid yn ardaloedd y cleifion a'r ardaloedd cymunedol. Mae hyn yn annerbyniol, a bu'n rhaid cyflwyno cynllun gweithredu sicrwydd ar unwaith mewn perthynas â nifer o'r materion hyn am eu bod yn peri risg bosibl o niwed ac yn tanseilio urddas y cleifion.

Er bod archwiliadau ac asesiadau risg yn cael eu cynnal, nid oeddent bob amser yn adlewyrchu'r risgiau a welwyd, ac roedd rhai materion a nodwyd yn flaenorol heb gael eu trin neu'u huwchgyfeirio'n effeithiol. Mae'r ffaith bod materion a nodwyd yn flaenorol wedi codi eto, a'r ffaith y bu'n rhaid i AGIC nodi nifer o risgiau eto yn ystod yr arolygiad, yn codi pryderon sylweddol am effeithiolrwydd trefniadau

archwilio a goruchwyllo lleol. Roedd hyn yn rhoi llai o sicrwydd bod peryglon yn cael eu nodi, eu blaenoriaethu a'u datrys mewn ffordd ddibynadwy. Roedd gennym bryderon hefyd fod prinder staff domestig yn cyfrannu at safonau glanhau anghyson ac yn rhoi pwysau ychwanegol ar y staff clinigol. Mae angen gwneud gwelliannau pellach i gryfhau systemau atal a rheoli heintiau, diogelwch amgylcheddol, goruchwyllo gwaith cynnal a chadw, ac ansawdd ac effaith prosesau archwilio lleol, fel bod y systemau hyn yn darparu sicrwydd dibynadwy a gwelliannau parhaus.

Ar y llaw arall, roedd y trefniadau llywodraethu ar gyfer digwyddiadau, dulliau atal, a diogelu yn gadarn ac wedi'u hymwreiddio'n dda. Roedd y cleifion yn teimlo'n ddiogel, roedd pryderon diogelu yn cael eu rheoli'n briodol, ac roedd gwaith amlddisgyblaethol cadarn yn digwydd. Roedd y cynlluniau gofal yn fanwl, wedi'u teilwra at yr unigolyn ac yn cydymffurfio â Mesur Iechyd Meddwl (Cymru), ac roedd tystiolaeth dda i ddangos bod y cleifion a'u teuluoedd yn cael eu cynnwys. Fodd bynnag, roedd cyfyngiadau mewn perthynas â'r system presgripsiynu electronig newydd yn rhoi llai o sicrwydd bod statws cyfreithiol y cleifion yn cael ei gofnodi'n gyson.

**Materion lle mae angen sicrwydd ar unwaith:** Gofynnodd AGIC am sicrwydd ar unwaith mewn perthynas â diogelwch amgylcheddol, rheoli'r risg o glymu ac atal a rheoli heintiau am fod nifer o risgiau wedi cael eu nodi a oedd yn golygu bod y cleifion, y staff ac ymwelwyr yn wynebu risg bosibl o niwed:

- Nodwyd nifer o beryglon clymu a pheryglon amgylcheddol yn Ward 10, gan gynnwys sgriwiau a oedd o fewn cyrraedd yn ardaloedd y cleifion ac eitemau nad oeddent yn sownd yn eu lle
- Gwelwyd bod ystafell a oedd yn cynnwys risgiau clymu a nodwyd wedi cael ei gadael heb ei chloi a bod modd i'r cleifion gael mynediad iddi
- Roedd y storfa wrth fynedfa Ward 10 heb ei chloi a oedd yn golygu bod modd i unrhyw un gael mynediad iddi, ac roedd arogl wrin cryf yno
- Nodwyd safonau glendid gwael ar Ward 10. Nid oedd y toiledau wedi cael eu glanhau i safon dderbyniol, ac roedd toiled arall wedi bod ar gau am gyfnod estynedig am ei fod yn ddiffygiol
- Yn y coridorau a'r ardaloedd cymunedol, gwelodd AGIC lwch, malurion, gwastraff bwyd a gwm cnoi ar y canllawiau, a staeniau dros y waliau, y lloriau, y sgertin, y canllawiau a fframiau'r drysau. Roedd rhywfaint o'r halogiad yn ymddangos fel pe bai wedi bod yno ers tro ac yn cynnwys olion ysgarthol yn ôl pob golwg
- Yn yr ystafell fwyta, gwelwyd olion bwyd neu staeniau ysgarthol ar y dodrefn

- Roedd difrod i osodiadau a ffitiadau, gan gynnwys difrod i ffrâm un o'r drysau mynediad a llawr sy'n codi ac wedi cael ei dapio yng nghoridor y ward, yn creu sawl perygl baglu
- Gwelwyd bioberyglon posibl, gan gynnwys staeniau coch a oedd yn edrych fel gwaed ar wal y tu allan i'r ystafell dawel, staeniau ysgarthol yn ôl pob tebyg ar ffrâm drws, ac eitemau personol wedi'u gadael yng nghilfachau canllawiau
- Roedd y balconi awyr agored a'r gerddi yn peri pryderon o ran diogelwch am eu bod mewn cyflwr gwael, gan gynnwys darnau o offer a oedd wedi'u gadael o fewn cyrraedd, ysgarthion adar, algâu, gweddillion sigaréts ar y llawr, ac arwynebau a oedd yn amlwg yn fudr.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith wedi'u nodi yn [Atodiad B](#)

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Gwella ansawdd a dibynadwyedd archwiliadau lleol, fel eu bod yn adlewyrchu ymarfer a risgiau ar y wardiau'n gywir ac yn arwain at welliannau mesuradwy
- Sicrhau bod cymorth domestig digonol a chyson ar gael i gynnal safonau derbyniol o lendid amgylcheddol a lleihau'r ddibyniaeth ar staff clinigol i gyflawni dyletswyddau domestig
- Sicrhau bod systemau digidol yn bodloni gofynion statudol a chyfreithiol yn llawn, gan gynnwys cofnodi statws cyfreithiol y cleifion yn gywir.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd yn llunio cynlluniau gofal o ansawdd uchel wedi'u teilwra at yr unigolyn, gyda chyfraniad amlddisgyblaethol effeithiol
- Roedd ganddo systemau cadarn ar gyfer rhoi gwybod am ddigwyddiadau, adolygu dulliau atal yn gorfforol ac ymarfer lleiaf cyfyngol
- Roedd yn sicrhau safonau da o ran maeth, hydradu, monitro iechyd corfforol a chadw cofnodion
- Roedd yn cydymffurfio'n llawn â dogfennau'r Ddeddf Iechyd Meddwl a gwybodaeth am hawliau'r cleifion.

## **Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth**

Crynodeb cyffredinol:

Gwelodd AGIC fod gan y wardiau dimau ymrwymedig a thosturiol a oedd yn cydweithio'n dda ac yn darparu gofal cefnogol o ddydd i ddydd. Yn ogystal, gwelwyd enghreifftiau o waith partneriaeth effeithiol ar gyfer cleifion unigol a threfniadau da ar gyfer llywodraethu gwybodaeth.

Fodd bynnag, ni chafodd AGIC sicrwydd bod trefniadau llywodraethu a threfniadau goruchwyllo ar lefel uwch-arweinwyr yn nodi, yn uwchgyfeirio ac yn datrys risgiau hirsefydlog yn effeithiol. Roedd gwendidau o ran goruchwyllo yn cyfrannu at faterion parhaus ym maes diogelwch amgylcheddol, atal a rheoli heintiau, ôl-groniadau o ran gwaith ystadau a chadw tŷ, ac amrywiadau yn ansawdd archwiliadau. Yn benodol, roedd y ffaith bod yr un materion yn dal i godi a'r anghysondeb rhwng canfyddiadau archwiliadau a'r risgiau a welwyd yn ystod yr arolygiad yn rhoi llai o sicrwydd bod systemau llywodraethu yn rhoi darlun cywir o ddiogelwch ac urddas ar y wardiau ac yn sbarduno gwelliannau amserol a pharhaus.

Roedd diwylliant y gweithlu yn y wardiau yn gadarnhaol. Dywedodd y staff eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan eu rheolwyr llinell ac roeddent wedi dangos parodrwydd i weithio'n hyblyg yn ystod cyfnodau aciwtedd uchel. Fodd bynnag, roedd y pwysau ar y gweithlu yn amlwg. Roedd cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol yn is na'r lefelau disgwyledig, a oedd yn rhoi llai o sicrwydd bod y staff yn cael eu cefnogi'n gyson i gynnal y cymwyseddau gofynnol.

Nid oedd canllawiau ysgrifenedig clir ar gael ar gyfer trefniadau staffio dros nos, ac felly roedd dibyniaeth ar ddisgwyliadau anffurfiol ynghylch cymorth ar draws y wardiau. Roedd y ffactorau hyn yn cynyddu risgiau ac yn rhoi llai o sicrwydd bod y staff yn cael eu galluogi, eu cefnogi a'u defnyddio'n gyson mewn ffordd sy'n cynnal gofal diogel, yn enwedig pan fo lefelau staffio'n is. Mae angen trefniadau goruchwyllo cryfach ar lefel weithredol, atebolrwydd cliriach a phrosesau sicrwydd mwy dibynadwy i sicrhau bod risgiau'n cael eu rheoli'n rhagweithiol a bod gwelliannau'n cael eu cyflwyno a'u cynnal.

Roedd y systemau llywodraethu gwybodaeth yn gadarn, ac roedd technoleg ddigidol yn golygu bod modd cyfathrebu ac ymgysylltu â chleifion yn ddiogel. Roedd gwaith partneriaeth ar lefel cleifion unigol yn effeithiol, gyda chydweithio da â theuluoedd, gwasanaethau eirioli, a gwasanaethau allanol.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Cryfhau trefniadau llywodraethu a threfniadau goruchwyllo ar lefel uwch-arweinwyr i sicrhau bod risgiau'n cael eu nodi, eu huwchgyfeirio, a'u datrys
- Adolygu a chryfhau trefniadau staffio a threfniadau cynllunio'r gweithlu, gan gynnwys canllawiau ysgrifenedig cliriach ar gyfer trefniadau staffio dros nos a chymorth rhwng wardiau, er mwyn lleihau risgiau ac ansicrwydd staff ynghylch rolau a chyfrifoldebau
- Gwella cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol ym mhob ward, yn enwedig mewn meysydd craidd fel diogelu, atal a rheoli heintiau, a diogelwch tân.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y staff yn dosturiol, yn fedrus ac yn ymrwymedig, gyda gwaith tîm cryf a phawb yn helpu ei gilydd.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith wedi'u nodi yn [Atodiad B](#).

## 3. Yr hyn a nodwyd gennym

### Ansawdd Profiad y Claf

#### Yn canolbwyntio ar yr unigolyn

##### Hybu iechyd

Roedd y cleifion yn cael eu helpu i gynnal eu hiechyd a'u llesiant gan fod gweithgareddau a chyfleoedd ystyrlon ar gael iddynt a oedd yn adlewyrchu eu diddordebau a'u galluoedd unigol. Gwelsom amrywiaeth o weithgareddau therapiwtig a hamdden yn cael eu cynnal, gan gynnwys celf, cerddoriaeth, ymarfer corff, cwisiau a bingo. Roedd nyrsys ailffocysu dynodedig a gwirfoddolwyr yn chwarae rôl flaenllaw yn trefnu gweithgareddau ac yn treulio amser gyda'r cleifion.

Roedd ardal awyr agored ar gael i'r cleifion ac ymwelwyr, y gallent ei chyrraedd drwy falconi'r ward. Gwelsom enghreifftiau o'r staff yn helpu'r cleifion i adael y safle dan oruchwyliaeth, gan gynnwys mynd gyda chlaf i amwynderau lleol, a oedd yn hyrwyddo eu hannibyniaeth a'u llesiant. Dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn gwerthfawrogi cael pethau i'w gwneud yn ystod y dydd a'u bod yn gwerthfawrogi bod staff ar gael i siarad â nhw a rhoi sicrwydd iddynt.

Fodd bynnag, nodwyd pryderon parhaus mewn perthynas â chyflwr a diogelwch yr ardd a balconi'r ward. Roeddent mewn cyflwr gwael ac yn cynnwys risgiau amgylcheddol a diogelwch, a oedd yn cyfyngu ar allu'r cleifion i'w defnyddio'n ddiogel. Codwyd pryderon tebyg yn ystod yr arolygiad yn 2023, sy'n rhoi llai o sicrwydd bod y camau gweithredu blaenorol wedi bod yn effeithiol neu'n gynaliadwy.

**Rhaid i'r bwrdd iechyd roi blaenoriaeth i ganfyddiadau arolygiadau, yn enwedig y rhai a godwyd yn yr arolygiad yn 2023, drwy aseinio cyfrifoldeb clir, amserlenni pendant a threfniadau goruchwyllo priodol. Bydd hyn yn sicrhau bod camau gweithredu i wella diogelwch a chyflwr yr ardd a'r balconi yn cael eu cymryd a'u holrhain, a'u bod yn gynaliadwy.**

##### Gofal urddasol a pharchus

Drwy gydol yr arolygiad, gwelsom y staff yn trin y cleifion â charedigrwydd, parch a thosturi. Roedd y rhyngweithio rhwng y staff a'r cleifion yn gyfforddus, yn amyneddgar ac yn gysurol. Dywedodd y cleifion wrthym yn gyson eu bod yn teimlo bod y staff yn eu trin ag urddas a pharch, a dywedodd sawl un ohonynt fod y staff yn "garedig" a'u bod yn "ymddiried ynddynt".

Roedd y staff yn cefnogi'r cleifion yn sensitif gydag anghenion gofal personol, gan gynnal preifatrwydd ac urddas. Gwelsom y staff yn curo cyn mynd i mewn i ystafelloedd y cleifion ac yn sicrhau preifatrwydd wrth roi gofal. Roedd y cleifion yn cael eu helpu i bersonoli eu hystafelloedd gan ddefnyddio eiddo personol, a oedd yn helpu i greu amgylchedd mwy cartrefol. Gallai'r cleifion gloi eu hystafelloedd lle bo hynny'n briodol, ac roedd trefniadau clir sy'n seiliedig ar risg ar waith i roi mynediad i'r staff pe bai angen.

Yn ystod yr arolygiad, cafwyd gwybodaeth a oedd yn awgrymu bod eitemau o eiddo personol y cleifion yn mynd ar goll neu'n cael eu cymysgu ag eiddo'r cleifion eraill. Nid oedd eitemau eiddo'r cleifion yn cael eu storio'n briodol bob amser, a oedd yn rhoi llai o sicrwydd bod eitemau'n cael eu rheoli'n ddiogel.

Gwelsom fod eitemau gwerthfawr y cleifion yn cael eu storio mewn cypyrddau CD; fodd bynnag, nid oedd y trefniant hwn yn darparu lefel briodol o ddiogelwch. Yn ogystal, nid oedd y trefniadau ar gyfer cofnodi, olrhain a dychwelyd eiddo'r cleifion yn gadarn.

Roedd pryderon am eitemau coll wedi achosi gofid i rai cleifion a'u teuluoedd. Gallai cyfathrebu'n well â theuluoedd helpu i roi sicrwydd a mynd i'r afael â phryderon am ofal cleifion a'r ffordd y caiff eiddo personol ei reoli.

**Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod systemau cadarn ar waith i gofnodi, storio ac olrhain eiddo ac eitemau gwerthfawr y cleifion, gan gynnwys trefniadau storio diogel, atebolrwydd clir a chyfathrebu effeithiol â'r cleifion a'u teuluoedd, er mwyn lleihau'r risg o golli eiddo neu beri gofid.**

Yn ystod yr arolygiad, gwelwyd bod y clociau yn ardaloedd y cleifion yn dangos yr amser neu'r dyddiad anghywir. Mae clociau cywir yn gymorth cyfarwyddo pwysig, yn enwedig i bobl sy'n byw gyda dementia, ac yn helpu'r cleifion i gyfarwyddo eu hunain a lleihau dryswch a phryder.

Dyweddodd perthnasau wrthym eu bod wedi codi pryderon am glociau anghywir â staff y ward yn flaenorol; fodd bynnag, nid oedd y materion hyn wedi cael eu datrys cyn yr arolygiad. Tynnwyd sylw'r staff at hyn yn ystod yr arolygiad, a chafodd y clociau eu cywiro bryd hynny. Roedd y ffaith bod y mater hwn wedi codi eto yn rhoi llai o sicrwydd bod pryderon a godir gan deuluoedd yn cael eu trin mewn ffordd gyson a pharhaus.

**Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod systemau ar waith i wirio a chynnal a chadw'r clociau a chymhorthion cyfarwyddo eraill yn ardaloedd y cleifion yn rheolaidd, a bod pryderon a godir gan y cleifion a'u teuluoedd yn cael eu trin mewn ffordd amserol a pharhaus, yn enwedig pan fo'r rhain yn cefnogi pobl sy'n byw gyda dementia.**

Roedd y staff yn gwisgo larymau personol wrth weithio ar y wardiau, ac roedd larymau ar gael i ymwelwyr, pe bai eu hangen. Roedd mynedfeydd y wardiau yn ddiogel, gyda'r drysau yn cael eu cloi i reoli mynediad.

Gwelsom fod y staff yn cymryd amser i siarad â'r cleifion ac ymateb i'w hanghenion neu bryderon. Er eu bod yn gweithio ar wardiau prysur, roedd y staff yn parhau i roi sylw i anghenion y cleifion ac ymateb iddynt, gan sicrhau eu bod yn cael eu diwallu. Roedd hyn yn dangos agwedd broffesiynol a gofalgar.

### **Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn**

Roedd y gofal a ddarperir wedi'i deilwra at anghenion a dewisiadau'r unigolyn, ac roedd y cleifion yn cael eu hannog a'u cefnogi i wneud dewisiadau lle bo hynny'n bosibl. Gwelsom y staff yn rhoi dewisiadau i'r cleifion ynghylch eu trefn o ddydd i ddydd, gan gynnwys beth i'w wisgo, pryd i gael cawod, pa weithgareddau i gymryd rhan ynddynt a beth yr hoffent ei fwyta.

Roedd y cofnodion gofal yn dangos bod gwaith cynllunio gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn, ei fod yn adlewyrchu meysydd Mesur Iechyd Meddwl (Cymru), a'i fod yn cynnwys mewnbwn gan y tîm amlddisgyblaethol. Gwelsom dystiolaeth bod y teuluoedd yn cael eu cynnwys wrth gynllunio gofal pan fo hynny'n briodol, a bod y staff yn ymateb yn gadarnhaol ac yn amserol pan fo anghenion y cleifion yn newid.

## **Amserol**

### **Gofal amserol**

Mae gan yr ysbyty brosesau clir ar gyfer rheoli llif cleifion a gwelyau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfathrebu'n rheolaidd ynghylch defnydd gwelyau a chynllunio ar gyfer derbyn cleifion a'u rhyddhau.

Roedd y cleifion yn cael gofal amserol ac ymatebol. Gwelsom y staff yn ymateb yn gyflym pan roedd y cleifion yn gofyn am gymorth, gan gynnwys cymorth gyda symudedd, mynd i'r toiled, a sicrwydd emosiynol. Roedd meddyginiaeth yn cael ei rhoi mewn modd amserol a sensitif, ac roedd y staff yn osgoi tarfu'n ddiangen ar y cleifion pan roeddent yn gorffwys lle bo hynny'n bosibl.

Siaradodd y cleifion yn gadarnhaol am y staff gan ddweud eu bod ar gael a'u bod yn ymatebol a gwelsom y staff yn defnyddio technegau llonyddu a rhoi sicrwydd i gefnogi cleifion mewn trallod. Roedd hyn yn gwneud i'r cleifion deimlo eu bod yn ddiogel, eu bod yn cael eu cefnogi a'u bod yn cael gofal amserol.

## **Teg**

## **Cyfathrebu ac iaith**

Roedd y cleifion yn cael eu cefnogi i gyfathrebu mewn ffyrdd a oedd yn diwallu eu hanghenion unigol. Roedd gwybodaeth ysgrifenedig ar gael ar hysbysfyrddau ac yn cael ei harddangos yn ddwyieithog, yn Gymraeg ac yn Saesneg. Dywedodd y cleifion wrthym eu bod wedi cael eu holi am eu dewis iaith pan gawsant eu derbyn i'r ward. Roedd staff Cymraeg eu hiaith yn gwisgo bathodynau "Iaith Gwaith" i ddangos hynny.

Er na wnaethom gyfarfod ag unrhyw gleifion Cymraeg eu hiaith yn ystod yr arolygiad, roedd y staff wedi gallu esbonio sut y byddent yn trefnu gwasanaethau cyfieithu a dehongli pe bai angen. Gwelsom y staff yn cyfathrebu mewn ffordd glir a pharchus â'r cleifion, gan ddefnyddio iaith briodol, osgoi jargon a rhoi amser i'r cleifion fynegi eu hunain.

Nodwyd bod angen adolygu rhai o'r hysbysfyrddau gwybodaeth i gleifion, gan fod rhai o'r hysbysfyrddau wedi dyddio. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am rolau'r staff a sut i godi pryderon. Dylai'r rhain gael eu diweddarau i sicrhau bod y wybodaeth yn parhau i fod yn glir ac yn gywir.

**Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod hysbysfyrddau gwybodaeth i gleifion yn cael eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd, gan gynnwys gwybodaeth am rolau'r staff a sut i godi pryderon, fel bod gwybodaeth glir, gywir a chyfredol ar gael i'r cleifion, eu teuluoedd, ac ymwelwyr.**

## **Hawliau a chydraddoldeb**

Roedd hawliau'r cleifion yn cael eu parchu a'u cefnogi. Roedd ardaloedd preifat ar gael i'r cleifion eu defnyddio pan roedd perthnasau a ffrindiau yn ymweld â nhw ac roeddent yn cael eu helpu i ddefnyddio ffonau a dyfeisiau symudol personol mewn ffordd ddiogel a phreifat. Roedd gwybodaeth am wasanaethau eirioli, hawliau'r cleifion a sut i godi pryderon wedi'i harddangos yn y wardiau.

Gwelsom y staff yn cefnogi cydraddoldeb a chynhwysiant yn ymarferol, gan gynnwys gwneud addasiadau rhesymol ar gyfer cleifion ag anghenion symudedd gan ddefnyddio cyfarpar a chymhorthion priodol. Roedd y staff wedi cwblhau hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth a gallent esbonio sut y byddent yn ymateb i wahaniaethu neu bryderon am hawliau'r cleifion.

Ar y cyfan, roedd systemau ar waith i hyrwyddo cydraddoldeb, amddiffyn hawliau dynol a chefnogi dewisiadau'r cleifion.

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

## Diogel

### Rheoli risg

Ni chafodd AGIC sicrwydd fod trefniadau rheoli risg effeithiol ar waith yn gyson yn y wardiau a arolygwyd. Gwnaethom nodi nifer o risgiau'n ymwneud ag iechyd a diogelwch a'r amgylchedd a oedd yn golygu bod y cleifion, y staff ac ymwelwyr yn wynebu risg bosibl o niwed. Roedd y rhain yn cynnwys peryglon clymu, eitemau nad oeddent wedi'u gosod yn sounnd yn eu lle, gosodiadau a ffitiadau a oedd wedi'u difrodi, peryglon baglu ac ardaloedd a oedd yn amlwg yn fudr.

Er bod asesiadau risg o ran pwyntiau clymu a'r amgylchedd wedi cael eu cwblhau, gwelsom nad oedd y materion a nodwyd bob amser wedi cael eu trin yn amserol na'u huwchgyfeirio'n effeithiol. Roedd rhai o'r risgiau a nodwyd yn ystod yr arolygiad wedi cael eu codi'n flaenorol, sy'n awgrymu diffyg camau gweithredu cynaliadwy a goruchwyliaeth. Roeddem yn bryderus hefyd nad oedd archwiliadau lleol yn adlewyrchu'r risgiau a welwyd yn gywir, gan gyfyngu ar sicrwydd bod peryglon yn cael eu nodi a'u lliniaru mewn ffordd ddibynadwy.

Mae manylion y camau unioni a gymerwyd gan y bwrdd iechyd i'w gweld yn [Atodiad B](#).

### Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Ni chafodd AGIC sicrwydd fod trefniadau effeithiol ar waith i atal a rheoli heintiau ym mhob ward. Gwnaethom nodi safonau gwael o lendid, gan gynnwys llwch, malurion a staeniau amlwg yn ardal y cleifion ac yn yr ardaloedd cymunedol. Dywedodd y staff wrthym nad oedd staff domestig ar gael ar ôl canol y prynhawn, a oedd yn golygu bod y staff clinigol yn cyflawni tasgau glanhau, a oedd yn rhoi mwy o bwysau ar y timau nyrsio.

Roeddem yn pryderu hefyd nad oedd yr archwiliadau atal a rheoli heintiau yn adlewyrchu'r safonau glendid a welwyd yn ystod yr arolygiad yn gywir. Er bod polisiau ar waith a bod y staff yn cael hyfforddiant, roedd diffyg trefniadau goruchwyllo a champau dilynol yn tanseilio hyder bod risgiau'n cael eu nodi a'u trin yn gyflym. Mae angen goruchwyliaeth ar lefel uwch-arweinwyr i sicrhau bod y ddarpariaeth ddomestig a'r trefniadau archwilio ac uwchgyfeirio yn rhoi sicrwydd ac nad ydynt yn gosod mwy o faich ar staff rheng flaen.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod trefniadau ar lefel uwch-arweinwyr i oruchwyllo'r ddarpariaeth ddomestig, prosesau archwilio a threfniadau uwchgyfeirio yn cael eu cryfhau, fel bod safonau glendid a diogelwch yn cael eu

cynnal yn gyson, bod risgiau'n cael eu nodi a'u trin yn gyflym ac i sicrhau nad oes mwy o bwysau'n cael ei roi ar staff clinigol rheng flaen i wneud iawn am ddiffygion systemig.

### **Diogelu plant ac oedolion**

Roedd y staff yn deall y trefniadau diogelu. Cadarnhaodd uwch-aelodau o staff y wardiau eu bod yn hyderus bod y staff yn deall y weithdrefn gywir i'w dilyn pe bai ganddynt bryder yn ymwneud â diogelu. Yn ystod trafodaethau, dangosodd y staff eu bod yn meddu ar wybodaeth am y broses atgyfeirio.

Dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn teimlo'n ddiogel ar y wardiau a'u bod yn gwybod â phwy y dylent siarad os bydd ganddynt bryderon. Roedd gwybodaeth am wasanaethau eirioli a diogelu yn cael ei harddangos ac roedd gwasanaethau eirioli ar gael i'r cleifion.

Roedd pryderon diogelu yn cael eu cofnodi a'u huwchgyfeirio drwy brosesau llywodraethu sefydledig, gan gynnwys Datix ac adolygiadau amlddisgyblaethol. Roedd yr atgyfeiriadau diogelu a welwyd yn ystod yr arolygiad wedi cael eu rheoli'n briodol, ac roedd tystiolaeth i ddangos bod prosesau goruchwyllo a gwersi i'w dysgu yn cael eu trafod yn ystod cyfarfodydd llywodraethu.

### **Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol**

Roedd archwiliadau clinigol yn cael eu cwblhau fel mater o drefn, gan gynnwys gwiriadau o'r cyfarpar adfywio. Roedd y staff yn dogfennu'r gwiriadau hyn i gadarnhau bod y cyfarpar yn barod i'w ddefnyddio ac yn gyfredol.

Roedd y staff yn ymwybodol o leoliadau torwyr clymau i'w defnyddio mewn argyfwng.

Yn ystod yr arolygiad, gwelwyd bod y biniau offer miniog ar Ward 10 yn orlawn a bod eitemau yn gwthio allan o'r biniau. Roedd hyn yn peri risg o anaf ac yn rhoi llai o sicrwydd bod trefniadau ar gyfer rheoli a gwaredu offer miniog yn ddiogel yn cael eu rhoi ar waith yn effeithiol yn gyson.

**Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod trefniadau cadarn ar waith i reoli a gwaredu offer miniog yn ddiogel, gan gynnwys monitro biniau offer miniog yn rheolaidd, newid y biniau'n amserol cyn iddynt orlenwi, ac atebolrwydd clir i leihau'r risg o anaf.**

### **Rheoli meddyginiaethau**

Roedd arferion rheoli meddyginiaethau yn addas ar y cyfan. Roedd y cofnodion meddyginiaeth yn glir, yn gyflawn ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda. Roedd

meddyginiaeth yn cael ei rhoi mewn ffordd sensitif, ac roedd meddyginiaeth y cleifion yn cael ei thrafod â nhw lle bo hynny'n briodol. Roedd y cyfarpar brys a'r troliau adfywio wedi cael eu gwirio a'u cofnodi.

Fodd bynnag, gwelsom nad oedd gwiriadau o dymheredd yr oergell feddyginiaeth wedi cael eu cynnal a bod clo un oergell glinigol wedi torri yn ystod yr arolygiad. Er i'r materion hyn gael eu huwchgyfeirio a'u trin yn ystod yr arolygiad, maent yn dangos bod angen cryfhau trefniadau goruchwyllo i sicrhau bod gwiriadau diogelwch arferol yn cael eu cwblhau'n gyson a bod camau'n cael eu cymryd i ymateb i faterion cynnal a chadw yn gyflym.

**Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod staff y wardiau'n cwblhau ac yn cofnodi gwiriadau diogelwch meddyginiaethau arferol yn gyson, gan gynnwys monitro tymheredd yr oergell feddyginiaeth, a bod materion cynnal a chadw yn cael eu huwchgyfeirio'n gyflym, gyda threfniadau goruchwyllo effeithiol ar waith i roi sicrwydd bod camau gweithredu'n cael eu cwblhau a'u bod yn gynaliadwy.**

## **Effeithiol**

### **Gofal effeithiol**

Ar y cyfan, gwelsom fod trefniadau llywodraethu priodol ar waith i helpu i ddarparu gofal diogel a chlinigol effeithiol i'r cleifion. Roedd y systemau ar gyfer rheoli digwyddiadau ac ymyriadau corfforol yn gadarn ac wedi'u hymgorffori'n dda.

Cadarnhaodd y staff fod cyfarfodydd dadfrifio yn cael eu cynnal ar ôl digwyddiadau, a dangosodd tystiolaeth yn ystod yr arolygiad fod pob digwyddiad ac ymyriad corfforol (fel dulliau atal yn gorfforol) yn cael ei adolygu a'i oruchwyllo.

Gwelsom enghreifftiau cadarnhaol o'r staff yn defnyddio technegau ailgyfeirio a thechnegau llonyddu yn ystod yr arolygiad. Roedd yr ymyriadau hyn yn cael eu cynnal mewn ffordd barchus a chefnogol, gan ddangos ymrwymiad i'r arferion lleiaf cyfyngol. Un maes ymarfer nodedig oedd camau rhagweithiol y staff i leihau'r defnydd o arferion cyfyngol drwy ddefnyddio technegau llonyddu, ymgysylltu'n ystyrllon, a darparu gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn.

Roedd system electronig sefydledig ar waith ar gyfer cofnodi, adolygu a monitro digwyddiadau. Roedd pob digwyddiad yn cael ei nodi ar system cofnodi digwyddiadau'r bwrdd iechyd (DATIX), ac roedd hierarchaeth gymeradwyo glir er mwyn sicrhau bod digwyddiadau yn cael eu hadolygu mewn modd amserol. Roedd adroddiadau ar ddigwyddiadau yn cael eu dadansoddi'n rheolaidd, ac roedd gwersi a ddysgwyd o gwynion a digwyddiadau yn cael eu rhannu â'r staff a'r sefydliad ehangach drwy gyfarfodydd a sesiynau goruchwyllo.

Gwelsom dystiolaeth o waith amlddisgyblaethol effeithiol a safon dda o gynllunio gofal clinigol. Roedd y cynlluniau gofal yn fanwl, yn adlewyrchu'r anghenion a aseswyd, ac yn cael eu hadolygu pan roedd cyflwr y cleifion yn newid. Roedd asesiadau risg yn cael eu diweddarau'n briodol, ac roedd iechyd corfforol yn cael ei fonitro a'i gofnodi'n gyson.

Gwelsom rowndiau ward cynhwysol a oedd yn canolbwyntio ar safbwyntiau'r cleifion ac yn cynnwys y teuluoedd lle bo hynny'n briodol.

### **Maeth a hydradu**

Roedd anghenion maeth a hydradu yn cael eu monitro a'u hasesu ac roedd pob claf yn cael asesiad maeth pan fyddai'n cael ei dderbyn i'r ward. Roedd y cleifion yn cael cymorth i ddiwallu eu hanghenion deietegol, ac roedd gofynion penodol yn cael eu bodloni fel y bo'n briodol. Roedd y cleifion i gyd yn cael cymorth i fwyta ac yfed, ac roedd y cofnodion yn dangos bod prosesau monitro cyson ar waith. Roedd y cleifion yn cael cynnig dewisiadau o fwydlen gytbwys, ac roedd y teuluoedd yn cael eu holi os nad oedd y cleifion yn gallu mynegi eu dewisiadau.

Roedd modd cael gwasanaethau deietegol a therapi iaith a lleferydd amserol pan fo angen. Roedd cymorth sensitif yn cael ei roi i gleifion yr oedd angen help arnynt i fwyta ac yfed.

### **Cofnodion cleifion**

Roedd cofnodion y cleifion yn gynhwysfawr, yn drefnus ac wedi'u dogfennu'n glir. Gwelsom sawl set o gofnodion gofal a oedd yn cynnwys tystiolaeth dda o waith asesu, cynllunio gofal, rheoli risg a monitro iechyd corfforol. Roedd y cofnodion yn cynnwys mewnbwn amlddisgyblaethol ac yn cael eu defnyddio i gefnogi parhad gofal.

Roedd archwiliadau rheolaidd yn cael eu cynnal o gofnodion y cleifion; fodd bynnag, o ystyried pryderon ehangach am ansawdd archwiliadau mewn meysydd eraill, mae angen goruchwyliaeth ar lefel uwch-arweinwyr i sicrhau bod canfyddiadau archwiliadau yn adlewyrchu ymarfer yn gyson.

### **Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl**

Gwnaethom edrych ar ddogfennau cadw statudol pum claf a gwelsom gydymffurfiaeth lawn â Deddf Iechyd Meddwl 1983 (Cod Ymarfer diwygiedig Cymru, 2016). Roedd yr holl gofnodion yn cadarnhau bod y cleifion yn cael eu cadw'n gyfreithlon ac yn dangos eu bod wedi cael gwybod am eu hawliau, ac roeddent yn cynnwys cydnabyddiaethau wedi'u llofnodi.

Roedd dogfennau statudol yn cael eu cwblhau'n gywir, eu storio'n ddiogel a'u trefnu'n glir. Roedd statws cyfreithiol y cleifion wedi cael ei gofnodi'n gywir ar

gofnodion papur, ac roedd gwasanaethau eirioli ar gael i'r cleifion ynghyd â gwybodaeth am eu hawliau.

Fodd bynnag, gwelsom nad oedd y system bresgripsiynu electronig newydd yn cofnodi statws cyfreithiol y cleifion yn gyson, a bod dogfennau cydsynio i driniaeth yn parhau i gael eu cadw ar bapur.

**Dylai'r bwrdd iechyd gysylltu â darparwr y system i sicrhau y gall gwybodaeth statudol gael ei chofnodi'n electronig ar y system bresgripsiynu electronig newydd.**

**Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010: cynllunio a darparu gofal**  
Gwnaethom adolygu Cynlluniau Gofal a Thriniaeth pedwar claf. Roedd y cofnodion yn dangos bod asesiad iechyd corfforol a dogfennaeth fonitro safonedig fel NEWS a MUST wedi cael eu cwblhau'n llawn a'u cadw'n gyfredol. Roedd asesiadau ychwanegol yn cael eu cwblhau yn seiliedig ar anghenion cleifion unigol.

Roedd y broses o reoli ymddygiadau'r cleifion yn cael ei dogfennu yn y cynlluniau gofal a'r proffiliau risg, ac roedd y staff wedi cael hyfforddiant i ddefnyddio sgiliau i reoli sefyllfaoedd heriol a'u tawelu. Roedd y cofnodion clinigol yn dangos yn glir fod y cleifion a'u teuluoedd yn rhan o'r trafodaethau gofal a oedd yn canolbwyntio ar y claf.

Roedd y cynlluniau gofal yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ac yn cael eu diweddarau i adlewyrchu'r anghenion a'r risgiau cyfredol. Roedd y broses o fonitro iechyd corfforol yn cael ei chofnodi'n gyson, ac roedd y cynlluniau rheoli risg yn fanwl ac yn gadarn. Roedd tystiolaeth o gynllunio gweithredol i ryddhau cleifion y mae angen lleoliadau tymor hir arnynt. Fodd bynnag, dywedodd y staff nad oedd gwaith cynllunio i ryddhau cleifion na llif cleifion mor effeithiol ag y bwriedir bob amser. Roedd oedi cyn sicrhau gwasanaethau a lleoliadau dilynol priodol yn golygu bod rhai cleifion yn aros am gyfnodau estynedig yn yr ysbyty. Disgrifiodd y staff enghreifftiau lle gallai cyfnodau estynedig yn yr ysbyty fod wedi cael effaith negyddol ar lesiant y cleifion a bod hyn, mewn rhai achosion, wedi effeithio ar addasrwydd y cleifion hynny ar gyfer y lleoliad a nodwyd ar eu cyfer yn wreiddiol. Roedd hyn yn rhoi llai o sicrwydd bod trefniadau rhyddhau cleifion yn cefnogi dilyniant gofal amserol yn gyson.

**Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwaith cynllunio i ryddhau cleifion yn cael ei gryfhau a'i fod yn dechrau'n gynt, gyda threfniadau cydgysylltu ac uwchgyfeirio i gefnogi mynediad amserol at wasanaethau a lleoliadau dilynol, a lleihau'r risg o oedi y gellir ei osgoi sy'n effeithio ar ganlyniadau'r cleifion.**

**Y Ddeddf Galluedd Meddyliol a Threfniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid**  
Roedd asesiadau o alluedd yn cael eu cwblhau a'u cofnodi'n briodol. Os nad oedd gan y cleifion alluedd, roedd penderfyniadau er lles pennaf yn cael eu cofnodi'n glir ac roedd teuluoedd neu gynrychiolwyr yn cael eu cynnwys lle bo hynny'n briodol. Roedd y dogfennau'n dangos bod galluedd yn cael ei ystyried mewn perthynas â phenderfyniadau penodol a'i ailystyried wrth i anghenion y cleifion newid.

Roedd tystiolaeth i ddangos bod opsiynau llai cyfyngol yn cael eu hystyried a bod cyfyngiadau cymesur yn cael eu defnyddio. Dangosodd y staff ddealltwriaeth dda o alluedd, cydsyniad, a'r angen i gofnodi penderfyniadau'n glir.

## **Effeithlon**

### **Effeithlon**

Roedd pwysau staffio, materion amgylcheddol, a darpariaeth ddomestig gyfyngedig yn lleihau effeithlonrwydd ac yn rhoi straen ychwanegol ar y staff clinigol. Mae'n hanfodol mynd i'r afael â'r materion systemig hyn er mwyn sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol a bod y staff yn treulio eu hamser yn canolbwyntio ar roi gofal uniongyrchol i'r cleifion.

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

## Arweinyddiaeth

### Llywodraethu ac arweinyddiaeth

Nododd AGIC bryderon ynghylch effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu a goruchwylio ar lefel uwch-arweinwyr. Er bod y staff ar y wardiau yn dangos ymrwymiad i ofal cleifion, roedd gwendidau o safbwynt goruchwyliaeth gan arweinwyr yn golygu bod nifer o faterion hirsefydlog heb eu datrys o hyd. Roedd y rhain yn cynnwys risgiau amgylcheddol, pryderon ynghylch atal a rheoli heintiau, ôl-groniadau o ran gwaith ystadau ac amrywiadau yn ansawdd archwiliadau.

Er bod fforymau llywodraethu ar waith, gan gynnwys cyfarfodydd rheolaidd i adolygu digwyddiadau, cwynion a materion diogelu, mae'r ffaith bod materion a nodwyd yn flaenorol yn dal i godi yn dangos nad oedd trefniadau sicrwydd yn ddigon cadarn. Nid oedd gan yr uwch-arweinwyr fawr o syniad o'r effaith gronol yr oedd materion heb eu datrys o ran ystadau a chadw tŷ yn ei chael ar ddiogelwch y cleifion a llwyth gwaith y staff.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau perchnogaeth ac atebolrwydd cliriach ac mae angen goruchwyliaeth ar lefel weithredol i sicrhau bod risgiau'n cael eu nodi, eu huwchgyfeirio, a'u trin mewn ffordd amserol a chynaliadwy.

## Y Gweithlu

### Gweithlu medrus a galluog

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn wybodus, yn dosturiol, ac yn amlwg yn ymrwymedig i ddarparu gofal o ansawdd da i grŵp o gleifion heriol. Roedd y timau'n cydweithio'n dda a gwelwyd eu bod yn rhoi cymorth anffurfiol da i gydweithwyr, yn enwedig yn ystod cyfnodau aciwtedd uchel.

Fodd bynnag, roedd y pwysau ar y gweithlu yn amlwg. Roedd angen gwella cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol, am fod y cyfraddau cwblhau cyffredinol yn is nag 80% ar y tair ward. Roedd sawl modiwl hyfforddiant craidd yn sylweddol is na'r lefelau disgwylidig, gan gynnwys hyfforddiant diogelu a oedd islaw 60% ar y tair ward, hyfforddiant diogelwch tân a oedd islaw 52%, a hyfforddiant atal a rheoli heintiau a oedd islaw 57% ar Ward 10.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau gwelliant o ran cwblhau hyfforddiant gorfodol.

Nid oedd canllawiau ysgrifenedig clir ar gael i gefnogi trefniadau staffio dros nos, a disgrifiodd y staff ddisgwyladau anffurfiol ynghylch cymorth ar draws y wardiau. Roedd hyn yn creu ansicrwydd a risg ar adegau pan fo llai o staff yn gweithio. Mae

angen trefniadau cryfach ar gyfer cynllunio'r gweithlu, disgwyliadau rôl cliriach, a systemau gwell i oruchwyllo cydymffurfiaeth â hyfforddiant er mwyn galluogi'r staff i ddarparu gofal diogel ac effeithiol yn gyson.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod trefniadau staffio dros nos yn y wardiau yn cael eu diffinio a'u cyfathrebu'n glir, gan gynnwys canllawiau manwl i nyrsys cofrestredig ar ba wardiau y mae'n ofynnol iddynt eu cefnogi, sut y caiff staff sy'n gweithio ar draws y wardiau eu cydgysylltu, a sut y gellir rhoi seibiannau digonol i'r staff a chadw lefelau staffio diogel drwy gydol y nos.

## Diwylliant

### Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

Gwelsom dystiolaeth o ddiwylliant cadarnhaol a chefnogol ar y wardiau. Siaradodd y staff yn agored am bwysau a heriau a gwnaethant ddweud eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan arweinwyr ward uniongyrchol. Dangosodd y timau brosesau cyfathrebu anffurfiol da a pharodwydd i gefnogi ei gilydd yn ystod shifftiau anodd.

Roedd y cleifion a'u teuluoedd yn gallu rhoi adborth drwy drafodaethau anffurfiol â'r staff a thrwy brosesau adborth ffurfiol. Roedd yr adborth a gafwyd gan deuluoedd a gofalwyr yn gymysg. Er inni glywed am rai profiadau cadarnhaol, codwyd pryderon hefyd, yn enwedig mewn perthynas â chyfathrebu a'r ffordd yr oedd eiddo personol y cleifion yn cael ei reoli.

Yn dilyn yr adborth a roddwyd gan deuluoedd a gofalwyr yn ystod yr arolygiad, aeth y bwrdd iechyd ati i ymgysylltu â pherthnasau mewn ymateb i'r adborth a ddarparwyd ac roedd yn ymchwilio i'r pryderon a godwyd.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod systemau cadarn ar waith i gasglu, adolygu a dadansoddi adborth gan gleifion, gofalwyr a staff yn rheolaidd, gan nodi themâu'n glir, cymryd camau amserol i ymateb i bryderon, a dangos bod gwersi i'w dysgu a chanlyniadau yn cael eu rhannu'n effeithiol â'r cleifion, eu teuluoedd a'r staff.

## Gwybodaeth

### Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg ddigidol

Roedd y trefniadau llywodraethu gwybodaeth yn gadarn, gyda pholisiau a gweithdrefnau clir i reoli data cleifion, yn electronig ac ar bapur, yn ddiogel. Roedd cofnodion y cleifion yn cael eu storio'n briodol ac roeddent ar gael i'r staff perthnasol. Roedd y staff yn cael hyfforddiant rheolaidd ar lywodraethu gwybodaeth a GDPR, ac roedd mynediad at gofnodion yn cael ei reoli'n briodol.

Roedd technoleg ddigidol yn cefnogi'r broses gyfathrebu, gyda gliniaduron a llechi ar gael ar gyfer galwadau fideo, ymgynoriadau o bell, ac i ymgysylltu â chleifion, yn amodol ar asesiadau risg. Roedd dyfeisiau'n ddiogel, ac roedd cyfrinachedd y cleifion yn cael ei barchu bob amser. Roedd prosesau llywodraethu ar waith i fonitro digwyddiadau, cwynion a phryderon diogelu.

## **Dysgu, gwella ac ymchwil**

### **Gweithgareddau gwella ansawdd**

Roedd y gwasanaeth yn cynnal amrywiaeth o archwiliadau, gan gynnwys archwiliadau o gofnodion y cleifion, trefniadau rheoli meddyginiaethau, trefniadau atal a rheoli heintiau, a'r amgylchedd. Fodd bynnag, nid oedd pob un o'r archwiliadau hyn yn nodi'r risgiau a welwyd yn ystod yr arolygiad, a oedd yn rhoi llai o sicrwydd bod prosesau archwilio yn adlewyrchu ymarfer ar y wardiau yn effeithiol.

Nid oedd canfyddiadau archwiliadau bob amser yn arwain at welliannau amserol na chynaliadwy, sy'n awgrymu bod angen trefniadau goruchwyllo cryfach i sicrhau bod gwersi i'w dysgu o archwiliadau'n cael eu trosi yn gamau gweithredu effeithiol.

## **Dull systemau cyfan**

### **Gweithio mewn partneriaeth a datblygu**

Gwelsom dystiolaeth o waith partneriaeth effeithiol ar lefel cleifion unigol. Roedd y cofnodion gofal yn dangos gwaith ymgysylltu da â theuluoedd, gwasanaethau eirioli, a thimau amlddisgyblaethol ehangach. Roedd y staff yn gweithio gyda gwasanaethau, gan gynnwys gofal sylfaenol, deieteg, therapi iaith a lleferydd a fferylliaeth, i ddiwallu anghenion y cleifion.

## 4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

# Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Gwelwyd bod y clo ar oergell feddyginiaeth ar ward 10 wedi torri.	Nid oedd meddyginiaethau'n cael eu storio'n ddiogel, a oedd yn cynyddu'r risg o fynediad heb awdurdod, ymyrraeth â meddyginiaethau neu wallau meddyginiaeth, ac yn rhoi llai o sicrwydd bod meddyginiaethau'n cael eu rheoli'n ddiogel.	Codwyd y mater ag uwch-nyrs yn ystod yr arolygiad.	Cafodd clo newydd ei archebu, a gosodwyd oergell arall â chlo yn y clinig i sicrhau bod meddyginiaethau'n cael eu storio'n ddiogel tra bod camau unioni'n cael eu cwblhau.

# Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

**Gwasanaeth:** Ysbyty Llandochau - Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Bobl Hŷn - Ward y Dwyrain  
10,14 ac 16

**Dyddiad yr arolygiad:** 23 - 25 Mawrth 2026

---

## Canfyddiadau

Ni chafodd AGIC sicrwydd fod diogelwch ac urddas y cleifion yn cael eu cynnal bob amser. Gwnaethom nodi risgiau yr oedd angen rhoi sylw iddynt ar unwaith mewn perthynas â'r amgylchedd, atal a rheoli heintiau, ac iechyd a diogelwch ar sawl ward.

### Ward 10

- Gwelsom sawl perygl clymu ac amgylcheddol, gan gynnwys sgrîwiau a oedd o fewn cyrraedd yn un o ardaloedd y cleifion
- Roedd ystafell a oedd yn cynnwys risgiau clymu wedi cael ei gadael heb ei chloi ac roedd modd i'r cleifion gael mynediad iddi
- Roedd storfa wrth fynedfa'r ward heb ei chloi, ac roedd arogl wrin cryf yno
- Roedd safonau glendid Ward 10 yn wael. Nid oedd y toiledau wedi cael eu glanhau i safon dderbyniol, ac roedd toiled arall wedi bod ar gau am beth amser am ei fod yn ddiffygiol. Yn y coridorau a'r ardaloedd cymunedol, gwelodd AGIC lwcch a malurion, gwastraff bwyd a gwm cnoi ar y canllawiau, a staeniau mawr, gan gynnwys olion ysgarthol yn ôl pob golwg, ar y waliau, y lloriau, y sgertin, y canllawiau a fframiau'r drysau. Roedd hi'n ymddangos bod rhywfaint o'r halogiad hwn wedi bod yno ers tro. Nodwyd pryderon tebyg yn yr ystafell fwyta, lle roedd olion bwyd neu staeniau ysgarthol ar y dodrefn.

---

### Ward 14

- Nododd AGIC fod ffrâm un o'r drysau mynediad wedi'i difrodi a'i hysgyrioni ac roedd llawr sy'n codi ac wedi cael ei dapio yng nghoridor y ward yn creu sawl perygl baglu. Gwelwyd gweddillion bwyd yn y coridorau ac ar gasin diffoddydd tân. Mae'n debyg bod un toiled wedi torri ers misoedd. Gwelodd AGIC staeniau coch a oedd yn edrych fel gwaed ar y wal y tu allan i'r ystafell dawel, staeniau ysgarthol yn ôl pob golwg ar ffrâm drws, a chlip gwallt wedi'i adael yng nghilfach y canllaw.

#### Ward 16

- Gwelwyd bod pen ysgrifennu wedi'i adael y tu ôl i gilfach y canllaw.

#### Y balconi awyr agored a'r ardd

- Roedd y cyflwr y balconi awyr agored a'r ardd yn codi pryderon o ran diogelwch. Roeddent mewn cyflwr gwael, gyda rhaw wedi'i gadael o fewn cyrraedd i'r cleifion, ysgarthion adar ac algâu, gweddillion sigarêts ar y llawr, ac arwynebau a oedd yn amlwg yn fudr. Yn gyffredinol, ni chafodd AGIC sicrwydd bod iechyd, diogelwch a llesiant y cleifion, y staff ac ymwelwyr yn cael eu cynnal.

Roedd AGIC yn pryderu hefyd nad oedd yr archwiliadau atal a rheoli heintiau a'r archwiliadau amgylcheddol yn adlewyrchu amgylcheddau'r wardiau yn gywir.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob risg clymu ac amgylcheddol yn ardaloedd y cleifion yn cael ei nodi, ei chofnodi a'i symud ar unwaith.	Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol.	Bydd y gwasanaeth yn mynd o gwmpas yr holl wardiau lle darperir gwasanaethau iechyd meddwl i bobl hŷn yn Ysbyty Athrofaol Llandochau i nodi unrhyw risgiau clymu. Caiff unrhyw risgiau a nodir eu cofnodi a'u trin ar unwaith.	Rheolwr y Gyfarwyddiaeth	2 Ebrill 2026
		Caiff yr archwiliad amgylcheddol ei ddiweddarau i gynnwys y risgiau newydd, gan gynnwys:	Nyrs Arweiniol Gwasanaeth Iechyd	7 Ebrill 2026

			<ul style="list-style-type: none"> <li>• Nodi pwyntiau angori, gan gynnwys sgrïwiau amlwg</li> <li>• Adolygu gwaith cynnal a chadw ac ati</li> </ul> <p>Bydd y Bwrdd Iechyd yn sicrhau bod yr asesiadau clymu yn cael eu cwblhau yn unol â Gweithdrefn Cymru Gyfan. Caiff y canlyniadau i gyd eu cyflwyno i arweinydd iechyd a diogelwch y bwrdd clinigol.</p>	Triwriaeth y Bwrdd Clinigol	Parhaus
2.	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod ystafelloedd sy'n cynnwys risgiau clymu hysbys yn cael eu cadw ar glo bob amser ac nad oes modd cael mynediad iddynt heb ddilyn gweithdrefnau rheoli risg.	Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol. Yr Amgylchedd	Bydd y bwrdd clinigol yn rhannu disgwiliadau clir â rheolwyr y wardiau a nyrsys cofrestredig am rôl y nyrs â chyfrifoldeb a'u cyfrifoldebau i gadw'r amgylchedd yn ddiogel i'w cleifion drwy gydol pob shift.	Triwriaeth y Bwrdd Clinigol	10 Ebrill 2026
			Bydd y gwasanaeth yn cryfhau'r gwiriadau amgylcheddol drwy wirio'r drysau'n ddyddiol. Caiff arwyddion eu llunio a'u harddangos ar ddrysau perthnasol i atgoffa'r staff bod yn rhaid iddynt gael eu cadw ar glo.	Rheolwr y Gyfarwyddiaeth	2 Ebrill 2026

3	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod storffeydd, gan gynnwys y rhai wrth fynedfeydd y wardiau, yn cael eu cloi pan nad ydynt yn cael eu defnyddio a'u bod yn cael eu cadw'n lân heb unrhyw arogleuon.</p>	<p>Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol. Atal a rheoli heintiau</p>	<p>Mae drws a oedd wedi torri wedi cael ei atgyweirio er mwyn sicrhau bod modd ei gloi.</p> <p>Caiff y biniau eu gwagio ddwywaith yr wythnos. Caiff arwydd ei lunio a'i arddangos ar ddrws y storfa i atgoffa'r staff i drefnu casgliadau ychwanegol os bydd arogleuon drwg yn yr ystafell. Caiff manylion cyswllt eu cynnwys ar yr arwydd.</p>	<p>Rheolwr y Gyfarwyddiaeth</p> <p>Rheolwr y Gyfarwyddiaeth</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p> <p>7 Ebrill 2026</p>
4.	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y tair ward yn cael eu glanhau i safon dderbyniol, gan gynnwys y toiledau, y coridorau, yr ardaloedd cymunedol a'r ystafelloedd bwyta.</p>	<p>Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol. Atal a rheoli heintiau</p>	<p>Mae holl ardaloedd y wardiau, heblaw am yr ystafelloedd bwyta, wedi cael eu glanhau'n drylwyr.</p> <p>Caiff yr holl ystafelloedd bwyta eu glanhau'n drylwyr gyda Ward y Dwyrain 10 yn cael ei glanhau ar 1 Ebrill a Wardiau'r Dwyrain 14 ac 16 yn cael eu glanhau ar 3 Ebrill.</p> <p>Bydd staff cadw tŷ a rheolwyr y ward yn mynd o gwmpas y wardiau i'w monitro gyda'i gilydd bob wythnos, yn ychwanegol at yr archwiliadau cadw tŷ.</p> <p>Caiff rheolwyr y wardiau eu hatgoffa na ddylent lofnodi adroddiadau'r</p>	<p>Cadw tŷ</p> <p>Cadw tŷ</p> <p>Cadw tŷ/ Rheolwyr y Wardiau</p> <p>Rheolwyr y Wardiau</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p> <p>3 Ebrill 2026</p> <p>1 ddechrau ar 7 Ebrill</p> <p>7 Ebrill 2026</p>

			<p>archwiliadau cadw tŷ oni bai eu bod wedi arolygu'r gwaith yn gyntaf.</p> <p>Caiff amserlen ar gyfer glanhau'r ystafelloedd bwyta a chynllun archwilio eu datblygu ar y cyd â'r timau arlwygo a chadw tŷ.</p>	<p>Rheolwyr cadw tŷ ac arlwygo.</p>	<p>7 Ebrill 2026</p>
5.	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob halogiad amgylcheddol, gan gynnwys staeniau sy'n edrych fel olion ysgarthol, gwastraff bwyd a malurion, yn cael ei lanhau ar unwaith yn unol â chanllawiau atal a rheoli heintiau.</p>	<p>Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol. Yr Amgylchedd ac Atal a Rheoli Heintiau</p>	<p>Cymerwyd camau ar unwaith i lanhau staeniau a oedd yn edrych fel olion ysgarthol, gwastraff bwyd a malurion fel rhan o'r gwaith glanhau trylwyr.</p> <p>Bydd staff cadw tŷ a rheolwyr y ward yn mynd o gwmpas y wardiau i'w monitro gyda'i gilydd bob wythnos, yn ychwanegol at yr archwiliadau cadw tŷ.</p>	<p>Cadw tŷ</p> <p>Cadw tŷ/ Rheolwyr y Wardiau</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p> <p>I ddechrau ar 7 Ebrill</p>
6.	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y toiledau ar y wardiau yn cael eu cynnal a'u cadw, eu bod yn gweithio'n briodol a'u bod yn hygyrch, gan uwchgyfeirio'n amserol pan fo cyfleusterau'n ddiffygiol.</p>	<p>Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol.</p>	<p>Mae'r holl bryderon am doiledau nad oeddent yn gweithio wedi cael eu datrys.</p> <p>Mae cofnodlyr cynnal a chadw wedi cael ei ddatblygu a'i rannu â'r tîm ystadau, sy'n amlinellu'r holl waith sydd ar ôl i'w gwblhau. Caiff cynnydd yn erbyn y cofnodlyr hwn ei fonitro gan Dîm Rheoli'r Gyfarwyddiaeth, a</p>	<p>Ystadau</p> <p>Rheolwr y Gyfarwyddiaeth / Ystadau</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p> <p>Wedi'i gwblhau gyda'r cofnodlyr yn cael ei fonitro'n barhaus</p>

			chaff unrhyw gyfyngiadau eu huwchgyfeirio at y Bwrdd Clinigol i'w trafod â'r Tîm Rheoli Ystadau.			
7.	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod seilwaith wedi'i ddifrodi ar y wardiau, gan gynnwys fframiau drysau wedi ysgyrioni a llawr sy'n codi neu wedi'i dapio, yn cael ei atgyweirio i ddileu unrhyw risgiau baglu ac anafu.	Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol. Yr Amgylchedd ac Atal a Rheoli Heintiau	Mae gwiriadau o lorïau'r wardiau wedi cael eu cynnwys yn y gwiriadau amgylcheddol dyddiol ac yn archwiliad wythnosol yr uwch-reolwr. Cyflwynwyd cais am gostau i helpu i ailaddurno'r ward a gosod llawr newydd. Mae'r tîm gweithredol wedi ymrwymo i gynnal adolygiad o amgylchedd gofal y gwasanaeth iechyd meddwl i bobl hŷn er mwyn helpu i ddatblygu wardiau sy'n deall dementia ac sy'n darparu amgylchedd therapiwtig sy'n gwella profiadau'r cleifion.	Rheolwr y Gyfarwyddiaeth	7 Ebrill 2026	Wedi'i gwblhau
8.	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cilfachau'r canllawiau yn cael eu gwirio'n rheolaidd ac nad oes unrhyw eitemau yn cael eu gadael ynddynt i leihau risgiau hylendid a diogelwch.	Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol. Yr Amgylchedd ac Atal a Rheoli Heintiau	Mae gwiriadau o gilfachau'r canllawiau wedi cael eu hychwanegu at y gwiriadau amgylcheddol dyddiol ac archwiliad wythnosol yr uwch-reolwr. Mae gwirio a glanhau cilfachau'r canllawiau bellach wedi cael eu	Rheolwr y Gyfarwyddiaeth	7 Ebrill 2026.	1 Hydref 2026
				Cadw tŷ	2 Ebrill 2026	

				hychwanegu at y rhestr gwaith cadw tŷ.			
9.	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr ardaloedd awyr agored yn cael eu cadw'n lân ac yn hylan, gan gael gwared ar ysgarthion adar, algâu, gweddillion sigarêts a malurion ar unwaith.	Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol. Yr Amgylchedd ac Atal a Rheoli Heintiau		Caiff y landeri eu glanhau i gael gwared ar falurion ac ysgarthion adar a welir ar y balconi.  Rydym yn aros am ddyfynbris ar gyfer gwaith i lanhau'r balconi.  Tîm profiad y claf i ystyried sut y gellir gwella'r balconi	Ystadau  Cadw tŷ  Rheolwr y Gyfarwyddiaeth	30 Ebrill 2026  10 Ebrill 2026  Cael cyngor erbyn 2 Ebrill	
10.	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr ardaloedd awyr agored yn cael eu cynnwys mewn archwiliadau amgylcheddol ac atal a rheoli heintiau rheolaidd, gyda risgiau'n cael eu huwchgyfeirio a'u trin yn amserol.	Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol. Yr Amgylchedd ac Atal a Rheoli Heintiau		Yr ardaloedd awyr agored i'w cynnwys yn yr archwiliadau amgylcheddol ac atal a rheoli heintiau ar Tendable.	Nyrs Arweiniol/Arweinydd Tendable	7 Ebrill 2026	
11	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod diogelwch y cleifion yn cael ei flaenoriaethu a'i gynnal bob amser drwy nodi, lliniaru a thrin risgiau amgylcheddol a risgiau	Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol.		Mae adran wedi cael ei hychwanegu at y cyfarfod boreol â rheolwyr y wardiau a dirprwy reolwyr y wardiau i drafod materion a risgiau sy'n ymwneud â'r amgylchedd ac ystadau. Mae cofnodlyfr o waith sydd heb ei	Rheolwr y Gyfarwyddiaeth	2 Ebrill 2026	

	iechyd a diogelwch yn gyflym ar bob ward.		gwblhau wedi cael ei ddatblygu a chaiff ei fonitro a'i ddefnyddio i helpu i gyfathrebu ac olrhain gwaith gyda'r timau ystadau a chadw tŷ. Caiff risgiau hirdymor na ellir eu datrys ar unwaith eu hasesu a'u hychwanegu at gofrestr risgiau.		
12	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod trefniadau goruchwyllo effeithiol ar waith ar lefel arweinwyr i roi sicrwydd bod amgylchedd y wardiau a'r ardaloedd awyr agored yn lân, yn ddiogel, mewn cyflwr da ac nad ydynt yn peri risgiau i'r cleifion, y staff nac ymwelwyr.	Arweinyddiaeth a Llywodraethu	Bydd y bwrdd clinigol yn cyfathrebu â rheolwyr y wardiau a thîm rheoli'r Gyfarwyddiaeth i osod disgwyladau clir o safbwynt eu cyfrifoldebau i gadw'r amgylchedd yn ddiogel i'r cleifion a gosod y mesurau sicrwydd effeithiol angenrheidiol ar waith.  Caiff cyfarfod dadfrifio ei gynnal ar gyfer rheolwyr y wardiau a staff cadw tŷ ac ystadau i rannu'r adborth a gafwyd gan AGIC	Triwriaeth y Bwrdd Clinigol	10 Ebrill 2026
13.	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod archwiliadau atal a rheoli heintiau ac archwiliadau amgylcheddol yn gynhwysfawr, yn gywir ac yn adlewyrchu cyflwr gwirioneddol y wardiau, a bod canfyddiadau archwiliadau'n arwain at gamau	Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol - Atal a Rheoli Heintiau a'r Amgylchedd	Mae'r bwrdd iechyd yn datblygu rhaglen o archwiliadau ac arolygiadau adolygu cymheiriaid. Bydd y gwasanaeth iechyd meddwl i bobl hŷn yn datblygu amserlen o archwiliadau adolygu cymheiriaid a bydd hefyd yn ystyried cynnwys tîm ehangach y	Nyrs Arweiniol/Arweinydd Tendable	30 Mai 2026

gweithredu amserol a gwaith monitro.		wardiau yn y broses arolygu ac archwilio Adfer rôl y nyrs gyswllt ar gyfer atal a rheoli heintiau a'i chyfrifoldebau i gefnogi trefniadau atal a rheoli heintiau ar y wardiau.	Uwch-nyrs Cleifion Mewnol	30 Ebrill 2026
--------------------------------------	--	---	---------------------------	----------------

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (priflythrennau): Rachel Dix**

**Teitl swydd:**

**Dyddiad: 02.04. 2026**

## Atodiad C - Cynllun gwella

**Gwasanaeth:** Ysbyty Llandochau - Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Bobl Hyn - Ward y Dwyrain  
10,14 ac 16

**Dyddiad yr arolygiad:** 23 - 25 Mawrth 2026

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y maen eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Nodwyd pryderon parhaus mewn perthynas â chyflwr a diogelwch yr ardd a balconi'r wardiau.	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr ardd a balconi'r wardiau yn ddiogel, mewn cyflwr da ac yn addas i'r	Yr amgylchedd.	Mae'r balconi wedi cael ei lanhau i gael gwared ar falurion ac ysgarthion adar.	Rheolwr y Gyfarwyddiaeth Gwasanaeth Iechyd Meddwl i Bobl Hyn	Wedi'i gwblhau

<p>Roeddent mewn cyflwr gwael ac yn cynnwys risgiau amgylcheddol a diogelwch, a oedd yn cyfyngu ar allu'r cleifion i'w defnyddio'n ddiogel. Codwyd pryderon tebyg yn ystod yr arolygiad yn 2023, sy'n rhoi llai o sicrwydd bod y camau gweithredu blaenorol wedi bod yn effeithiol neu'n gynaliadwy.</p>	<p>cleifion eu defnyddio, a bod y camau a gymerir mewn ymateb i ganfyddiadau arolygiadau blaenorol yn effeithiol ac yn gynaliadwy.</p>		<p>Mae arwyddion wedi cael eu gosod ar y balconi i atgoffa'r staff ac ymwelwyr i roi gwybod am unrhyw bryderon o ran glendid gan ddefnyddio'r manylion cyswllt a ddarperir.</p> <p>Mae dyfynbris wedi dod i law ar gyfer gwaith i lanhau ac atgyweirio'r landeri.</p> <p>Oherwydd maint y gwaith a'r gost, bydd angen i'r prosiect fynd drwy broses dendro lawn. Bydd y broses hon yn cymryd 6-8 mis. Rydym wedi cael cadarnhad nad oes unrhyw broblemau gyda'r to nac adeiladwaith y safle.</p> <p>Nes bod y gwaith adeiladu'n cael ei gwblhau, bydd y Gyfarwyddiaeth yn trefnu bod y balconi'n</p>	<p>Rheolwr y Gyfarwyddiaeth Gwasanaeth Lechyd Meddwl i Bobl Hŷn</p> <p>Pennaeth Ystadau</p> <p>Rheolwr y Gyfarwyddiaeth Gwasanaeth Lechyd Meddwl i Bobl Hŷn</p>	<p>Weddi gwblhau</p> <p>31 Rhagfyr 2026</p> <p>30 Medi 2026</p>
--	--	--	--	---	---

				cael ei lanhau'n amlach.  Bydd tîm profiad y claf yn ystyried cyfleoedd i wirfoddolwyr helpu i gynnal a chadw'r balconi a'r ardd.	Rheolwr y Gyfarwyddiaeth / Pennaeth Cynorthwyol Profiad y Claf	31 Gorffennaf 2026
<b>2.</b> Cafwyd gwybodaeth a oedd yn awgrymu bod eitemau o eiddo personol y cleifion yn mynd ar goll neu'n cael eu cymysgu ag eiddo'r cleifion eraill. Nid oedd eiddo'r cleifion yn cael ei storio'n briodol bob amser. Gwelsom fod eitemau gwerthfawr y cleifion yn cael eu storio mewn cypyrddau CD.	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod systemau cadarn ar waith i gofnodi, storio ac olrhain eiddo ac eitemau gwerthfawr y cleifion, gan gynnwys trefniadau storio diogel, atebolrwydd clir a chyfathrebu effeithiol â'r cleifion a'u teuluoedd, er mwyn lleihau'r risg o golli eiddo neu beri gofid.	Gofal ag urddas.	Mae proses glir ar waith i gofnodi eiddo'r cleifion pan gânt eu derbyn i'r ward. Caiff cydymffurfiaeth â'r polisi eiddo cleifion ei monitro  Caiff y daflen wybodaeth i gleifion a pherthnasau ei hadolygu i gryfhau'r trefniadau ar gyfer rheoli eiddo sy'n dod i mewn i'r ward wrth i'r claf gael ei dderbyn.  Caiff coffr ward ei gaffael i'w ddefnyddio i storio eitemau gwerthfawr y tu allan i oriau yn unig pan nad yw'r derbynnydd arian	Rheolwyr y Wardiau Gwasanaeth Iechyd Meddwl i Bobl Hŷn  Rheolwr y Gyfarwyddiaeth Gwasanaeth Iechyd Meddwl i Bobl Hŷn  Nyrs Arweiniol	Parhaus  30 Mehefin 2026  31 Mai 2026	

				<p>yn gweithio.-- Caiff eitemau eu trosglwyddo i goffr y derbynnydd arian cyn gynted â phosibl.</p> <p>Bydd y Nyrs â Chyfrifoldeb yn gyfrifol am sicrhau bod eitemau gwerthfawr yn cael eu storio'n ddiogel a'u trosglwyddo'n amserol i'r derbynnyddion arian.</p>	<p>Rheolwr y Gyfarwyddiaeth Gwasanaeth Iechyd Meddwl i Bobl Hŷn</p>	<p>5 Mehefin 2026</p>
<p><b>3.</b> Yn ystod yr arolygiad, gwelwyd bod y clociau yn ardaloedd y cleifion yn dangos yr amser neu'r dyddiad anghywir.</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod systemau ar waith i wirio a chynnal a chadw'r clociau a chymhorthion cyfarwyddo eraill yn ardaloedd y cleifion yn rheolaidd, a bod pryderon a godir gan y cleifion a'u teuluoedd yn cael eu trin mewn ffordd amserol a pharhaus, yn enwedig pan fo'r rhain yn cefnogi pobl sy'n byw gyda dementia.</p>	<p>Gwybodaeth i gleifion.</p>	<p>Caiff pob cloc ei wirio'n rheolaidd bellach i sicrhau ei fod yn gweithio'n briodol ac yn dangos yr amser a'r dyddiad cywir. Caiff hyn ei ychwanegu at archwiliadau Tendable y wardiau a'r rhestrau gwirio amgylcheddol dyddiol.</p> <p>Mae ymateb i bryderon yn unol â Rheoliadau Gwranddo ar Bobl yn rhan o hyfforddiant arwain band 6 a 7. Mae system dysgu</p>	<p>Rheolwyr y wardiau/uwch-nyrs /Nyrs Arweiniol</p> <p>Nyrs Arweiniol</p>	<p>31 Mai 2026</p> <p>30 Mehefin 2026</p>	

					<p>electronig i Gymru Gyfan a fydd ar gael ar ESR yn cael ei datblygu ond yn y cyfamser, bydd y Gwasanaeth Iechyd Meddwl i Bobl Hŷn yn trefnu hyfforddiant wedi'i deilwra ar ymateb i bryderon</p>		
<p>4. Roedd angen adolygu rhai o'r hysbysfyrddau gwybodaeth i gleifion, gan fod rhai o'r hysbysiadau wedi dyddio. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am rolau'r staff a sut i godi pryderon. Dylai'r rhain gael eu diwedddaru i sicrhau bod y wybodaeth yn parhau i fod yn glir ac yn gywir.</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod hysbysfyrddau gwybodaeth i gleifion yn cael eu hadolygu a'u diwedddaru'n rheolaidd, gan gynnwys gwybodaeth am rolau'r staff a sut i godi pryderon, fel bod gwybodaeth glir, gywir a chyfredol ar gael i'r cleifion, eu teuluoedd, ac ymwelwyr.</p>	<p>Gwybodaeth i gleifion.</p>	<p>Caiff yr hysbysfyrddau gwybodaeth i gleifion eu hadolygu a'u diwedddaru. Cânt eu hadolygu gan yr uwch-nyrs bob mis fel rhan o broses archwilio Tendable i sicrhau eu bod yn gyfredol, a bod gwybodaeth berthnasol yn cael ei harddangos a bod camau'n cael eu cymryd pan fo angen.</p> <p>Caiff gwybodaeth am rolau'r staff ei harddangos wrth fynedfeydd y wardiau ynghyd â phosteri ar sut i godi pryder.</p>	<p>Uwch-nyrs</p> <p>Uwch-nyrs</p>	<p>31 Mai 2026</p> <p>30 Mehefin 2026</p>		

<p>5. Nid oedd yr archwiliadau atal a rheoli heintiau yn adlewyrchu'r safonau glendid a welwyd yn ystod yr arolygiad yn gywir.</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod trefniadau ar lefel uwch-arweinwyr i oruchwyllo'r ddarpariaeth ddomestig, prosesau archwilio a threfniadau uwchgyfeirio yn cael eu cryfhau, fel bod safonau glendid a diogelwch yn cael eu cynnal yn gyson, bod risgiau'n cael eu nodi a'u trin yn gyflym ac i sicrhau nad oes mwy o bwysau'n cael ei roi ar staff clinigol rheng flaen i wneud iawn am ddiffygion systemig.</p>	<p>Cadw Cofnodion.</p>	<p>Mae archwiliadau cymheiriaid rheolaidd drwy Tendable wedi cael eu cyflwyno, ar sail traws-ward-, sy'n golygu nad yw'r wardiau yn archwilio eu hamgylcheddau eu hunain a bod systemau annibynnol ar waith i graffu ar gydymffurfiaeth â safonau y cytunwyd arnynt.</p> <p>Caiff cynlluniau gweithredu awtomatig a gaiff eu llunio yn dilyn yr archwiliadau eu hadolygu gan reolwr y ward a'u rhoi ar waith yn amserol.</p> <p>Mae archwiliadau tîm rheoli'r gyfarwyddiaeth, a gynhelir gan oruchwylwyr cadw tî, bellach yn cael eu cymeradwyo gan reolwyr/dirprwy reolwyr y wardiau, a dim ond ar ôl iddynt</p>	<p>Rheolwyr y Wardiau/ Uwch-nyrsys</p> <p>Rheolwyr y Wardiau</p> <p>Tîm Cadw Tî/Rheolwr neu Dirprwy Reolwr y Ward</p>	<p>Weddi gwblhau ac yn barhaus</p> <p>Weddi gwblhau ac yn barhaus</p> <p>Weddi gwblhau ac yn barhaus</p>
--	--	------------------------	---	---	--

			<p>fod yn bresennol i arsylwi'r archwiliad.</p> <p>Caiff archwiliadau dilysu eu cynnal gan oruchwytywyr cadw tŷ a'u cymeradwyo gan reolwr y gyfarwyddiaeth, neu gynrychiolydd.</p> <p>Defnyddir Synbiotix (Meddalwedd Rheoli Cyfleusterau Gofal lechyd) ar gyfer archwiliadau tîm rheoli'r gyfarwyddiaeth a'r archwiliadau dilysu. Mae'r system sgorio'n cael ei hadolygu.</p> <p>Mae'r bylchau yn y ddarpariaeth staffio cadw tŷ wedi cael eu llenwi.</p> <p>Bydd timau cadw tŷ ac atal a rheoli heintiau yn cynnal archwiliadau amgylcheddol ar y cyd. Dechreuodd tîm IMOP, yn ogystal â'r tîm ymateb cyflym, weithio</p>	<p>Tîm Cadw Tŷ/ Rheolwr y Gyfarwyddiaeth Gwasanaeth lechyd Meddwl i Bobl Hŷn</p> <p>Tîm Cadw Tŷ</p> <p>Tîm Cadw Tŷ</p> <p>Tîm Cadw Tŷ/Atal a Rheoli Heintiau</p>	<p>Wedi'i gwblhau ac yn barhaus</p> <p>31 Mai 2026</p> <p>Wedi'i gwblhau</p> <p>31 Mai 2026</p>
--	--	--	---	--	---

				ar 5 Mai 2026 gan ganolbwyntio ar yr ystafelloedd bwyta yn wardiau'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl i Bobl Hŷn			
6.	Gwelwyd bod y biniau offer miniog ar Ward 10 yn orlawn a bod eitemau yn gwthio allan o'r biniau. Roedd hyn yn peri risg o anaf ac yn rhoi llai o sicrwydd bod trefniadau ar gyfer rheoli a gwaredu offer miniog yn ddiogel yn cael eu rhoi ar waith yn effeithiol yn gyson.	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod trefniadau cadarn ar waith i reoli a gwaredu offer miniog yn ddiogel, gan gynnwys monitro biniau offer miniog yn rheolaidd, newid y biniau'n amserol cyn iddynt orlenwi, ac atebolrwydd clir i leihau'r risg o anaf.	Gofal diogel ac effeithiol.	Mae diogelwch o ran offer miniog wedi'i gynnwys yn hyfforddiant gorfodol y bwrdd iechyd ar atal a rheoli heintiau.  Mae cyfraddau cydymffurfio presennol fel a ganlyn:  Ward y Dwyrain 10 - 89.4% Ward y Dwyrain 14 - 84.3% Ward y Dwyrain 16 - 75%  Bydd rheolwyr y wardiau yn sicrhau bod yr holl staff priodol yn cwblhau'r hyfforddiant hwn, fel bod cyfraddau cydymffurfio yn cyrraedd 85% o leiaf	Rheolwyr y wardiau	30 Mehefin 2026	



	<p>a bod camau'n cael eu cymryd i ymateb i faterion cynnal a chadw yn gyflym.</p>	<p>goruchwyllo effeithiol ar waith i roi sicrwydd bod camau gweithredu'n cael eu cwblhau a'u bod yn gynaliadwy.</p>		<p>ei henwi ar y rhestr gweithio iechyd a'i nodi'n glir ar y bwrdd staff.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Nid oedd meddyginiaeth a oedd wedi darfod wedi cael ei gwaredu'n amserol. Bydd gwiriadau'r nyrs nos yn cynnwys dyddiadau darfod meddyginiaethau i sicrhau eu bod yn cael eu gwirio a'u gwaredu'n gywir</li> <li>• Bydd yr uwch-nyrs yn cwblhau archwiliadau dirybudd o'r storfeydd meddyginiaeth i fesur canlyniadau'r camau gweithredu hyn.</li> </ul>		
--	---	---	--	--	--	--

				Bydd rheolwyr y wardiau yn cwblhau archwiliadau sicrwydd misol mewn perthynas â'r storfeydd meddyginiaeth am gyfnod o 4 mis i sicrhau bod cyfraddau cydymffurfio yn gwella, gan anelu at gydymffurfiaeth o 90-95%. Bydd yr uwch-nyrs yn sicrhau bod rheolwyr y wardiau'n cwblhau unrhyw gamau gwella sy'n deillio o'r archwiliadau hyn. Caiff themâu eu hadolygu a'u trafod mewn cyfarfodydd ansawdd, diogelwch a phrofiad a chaiff camau eu cymryd lle bo angen.	Rheolwyr y Wardiau/ Uwch-nyrs	Parhaus
<b>8.</b>	Nid oedd y system bresgripsiynu electronig newydd yn cofnodi statws cyfreithiol y cleifion yn gyson, ac roedd dogfennau cydsynio i driniaeth yn	Dylai'r bwrdd iechyd gysylltu â darparwr y system i sicrhau y gall gwybodaeth statudol gael ei chofnodi'n electronig ar y system bresgripsiynu electronig newydd.	Cadw Cofnodion	Mae system Presgripsiynu a Rhoi Meddyginiaethau electronig y bwrdd iechyd wedi cael ei diwygio fel bod modd cofnodi statws cyfreithiol/cydsyniad, ond nid oes modd	Nyrs Arweiniol	Weddi gwblhau - parhaus .

<p>parhau i gael eu cadw ar bapur.</p>			<p>lanlwytho'r dogfennau gofynnol nac ychwanegu gwybodaeth fanwl.</p> <p>Mae'r risg hon yn cael ei lliniaru drwy gadw copi papur o'r dogfennau statws cyfreithiol yn yr ystafell drin i sicrhau bod y feddyginiaeth sydd wedi'i henwi yn y dogfennau hyn yn weladwy i'r nyrsys cymwysedig sy'n rhoi meddyginiaeth i'r cleifion er mwyn sicrhau bod gofynion cyfreithiol yn cael eu bodloni.</p> <p>Mae'r holl staff yn ymwybodol o hyn.</p>		
<p><b>9.</b> Dywedodd y staff nad oedd gwaith cynllunio i ryddhau cleifion na llif cleifion mor effeithiol ag y bwriedir bob amser. Roedd oedi cyn sicrhau gwasanaethau a lleoliadau dilynol</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwaith cynllunio i ryddhau cleifion yn cael ei gryfhau a'i fod yn dechrau'n gynt, gyda threfniadau cydgysylltu ac uwchgyfeirio i</p>	<p>Gofal Diogel ac Effeithiol</p>	<p>Bydd ffrwd waith llif cleifion yn dechrau ar 21 Mai 2026, gyda chyfarfodydd yn cael eu cynnal bob pythefnos i gryfhau trefniadau cyfathrebu ynghylch cynllunio i</p>	<p>Rheolwr y Gyfarwyddiaeth</p>	<p>21 Mai 2026 ac yn barhaus</p>

	<p>priodol yn golygu bod rhai cleifion yn aros am gyfnodau estynedig yn yr ysbyty.</p>	<p>geflogi mynediad amserol at wasanaethau a lleoliadau dilynol, a lleihau'r risg o oedi y gellir ei osgoi sy'n effeithio ar ganlyniadau'r cleifion.</p>		<p>ryddhau cleifion ac i liniaru rhwystrau i ryddhau cleifion.</p>		
<p><b>10</b></p>	<p>Nid oedd gan yr uwch-arweinwyr fawr o syniad o'r effaith gronnol yr oedd materion heb eu datrys o ran ystadau a chadw tŷ yn ei chael ar ddiogelwch y cleifion a llwyth gwaith y staff.</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau perchnogaeth ac atebolrwydd cliriach ac mae angen goruchwyliaeth ar lefel weithredol i sicrhau bod risgiau'n cael eu nodi, eu huwchgyfeirio, a'u trin mewn ffordd amserol a chynaliadwy.</p>	<p>Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd</p>	<p>Mae heriau sy'n gysylltiedig ag ystadau sy'n heneiddio yn rhan o Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd. Caiff cydymffurfiaeth statudol ei monitro gan y grŵp rheoli cyfalaf i sicrhau bod meysydd risg allweddol yn cael eu blaenoriaethu a bod risgiau mewn perthynas â'r ystad yn cael eu cyflwyno i'r pwyllgor iechyd a diogelwch.</p> <p>Bydd y Cyfarwyddwr Nyrsio Gweithredol a staff ystadau yn mynd o amgylch safleoedd y gyfarwyddiaeth Gwasanaeth Iechyd Meddwl i Bobl Hŷn ac</p>	<p>Tîm Gweithredol</p> <p>Cyfarwyddwr Nyrsio Gweithredol</p>	<p>Parhaus</p> <p>Weddi gwblhau</p>

				<p>lechyd Meddwl Oedolion er mwyn cofnodi'r holl waith amgylcheddol sy'n ofynnol ac sydd heb ei gwblhau.</p> <p>Mae'r Gwasanaeth lechyd Meddwl i Bobl Hŷn yn cynnal cyfarfodydd deirgwaith yr wythnos â'r uwch-nyrs a'r wardiau lle caiff ceisiadau am waith cynnal a chadw neu faterion cadw tŷ eu huwchgyfeirio.</p> <p>Mae system olrhain wythnosol wedi cael ei rhoi ar waith i fonitro unrhyw geisiadau mewn perthynas ag ystadau sydd heb eu cwblhau. Caiff y wybodaeth hon ei rhannu â'r rheolwr ystadau i'w huwchgyfeirio.</p> <p>Mae uwch-reolwr yn mynd o amgylch y safle</p>	<p>Uwch-nyrs</p> <p>Rheolwr y Gyfarwyddiaeth</p> <p>Uwch-reolwyr y Gwasanaeth lechyd Meddwl i Bobl Hŷn</p>	<p>Parhaus</p> <p>Wedi'i gwblhau/parhaus</p> <p>Wedi'i gwblhau/Parhaus</p>
--	--	--	--	---	--	--

11	<p>Roedd angen gwella cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol, am fod y cyfraddau cwblhau cyffredinol islaw 80% ar y tair ward. Roedd sawl modiwl hyfforddiant craidd islaw'r lefelau disgwyliedig, gan gynnwys hyfforddiant diogelu a oedd islaw 60% ar y tair ward, hyfforddiant diogelwch tân a oedd islaw 52%, a hyfforddiant atal a</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff cyfraddau cydymffurfio â hyfforddiant gorfodol eu gwella.</p>	Y Gweithlu	<p>bob wythnos i nodi unrhyw faterion sydd heb eu cwblhau mewn perthynas ag ystadau neu gadw tŷ.</p> <p>Os na chaiff materion eu hunioni'n amserol, cânt eu huwchgyfeirio at uwch-dîm rheoli'r bwrdd clinigol</p>	Rheolwr y Gyfarwyddiaeth/Nyrs Arweiniol	Parhaus
				<p>Mae'r uwch-nyrs yn cynnal cyfarfodydd misol â rheolwyr y wardiau lle caiff cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol ei chodi.</p> <p>Caiff rheolwyr y wardiau eu hatgoffa o'u cyfrifoldeb i fonitro cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol. Caiff hyn ei drafod yn ystod eu cyfarfodydd 1:1 â'r uwch-nyrs a chaiff ei rannu yn y cyfarfodydd a gynhelir deirgwaith yr wythnos.</p>	Uwch-nyrs  Uwch-nyrs	Parhaus  31 Mai 2026

<p>rheoli heintiau a oedd islaw 57% ar Ward 10.</p>			<p>Gofynnir i reolwyr y wardiau hysbysu eu huwch-nyrs am unrhyw gyfyngiadau o ran cydymffurfio â hyfforddiant gorfodol.</p> <p>Mae cyfraddau cydymffurfio presennol y wardiau â hyfforddiant gorfodol fel a ganlyn:  Ward y Dwyrain 10 - 81%  Ward y Dwyrain 14 - 81%  Ward y Dwyrain 16 - 70%</p>	<p>Rheolwyr y wardiau</p>	<p>31 Mai 2026</p>
<p><b>12</b> Nid oedd canllawiau ysgrifenedig clir ar gael i gefnogi trefniadau staffio dros nos, a disgrifiodd y staff ddisgwyliadau anffurfiol ynghylch cymorth ar</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod trefniadau staffio dros nos yn y wardiau yn cael eu diffinio a'u cyfathrebu'n glir, gan gynnwys canllawiau</p>	<p>Y Gweithlu</p>	<p>Bydd yr uwch-nyrs yn gweithio gyda'r wardiau i wella cydymffurfiaeth gan anelu at gyfradd gydymffurfio o 85%.</p> <p>Mae nifer y staff nyrsio wedi cael ei gymeradwyo'n broffesiynol ar gyfer dwy nyrs gofrestrdedig fesul ward dros nos a fydd yn weithredol ar unwaith, a fydd yn</p>	<p>Uwch-nyrs</p> <p>Nyrs Arweiniol</p>	<p>30 Mehefin 2026</p> <p>Wedi'i gwblhau</p>

<p>draws y wardiau. Roedd hyn yn creu ansicrwydd a risg ar adegau pan fo llai o staff yn gweithio.</p>	<p>manwl i nyrsys cofrestredig ar ba wardiau y mae'n ofynnol iddynt eu cefnogi, sut y caiff staff sy'n gweithio ar draws y wardiau eu cydgysylltu, a sut y gellir rhoi seibiannau digonol i'r staff a chadw lefelau staffio diogel drwy gydol y nos.</p>		<p>golygu bod tîm llawn o staff yn gweithio ar bob shiftt heb fod angen defnyddio staff o wardiau eraill. Caiff cydymffurfiaeth â'r niferoedd staffio y cytunwyd arnynt ei monitro'n barhaus drwy'r system Safecare ddiigidol</p>		
<p><b>13</b> Yn dilyn yr adborth a roddwyd gan deuluoedd a gofalwyr yn ystod yr arolygiad, aeth y bwrdd iechyd ati i ymgysylltu â pherthnasau mewn ymateb i'r adborth a ddarparwyd ac roedd yn ymchwilio i'r pryderon a godwyd.</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod systemau cadarn ar waith i gasglu, adolygu a dadansoddi adborth gan gleifion, gofalwyr a staff yn rheolaidd, gan nodi themâu'n glir, cymryd camau amserol i ymateb i bryderon, a dangos bod gwersi i'w dysgu a chanlyniadau yn cael eu rhannu'n effeithiol â'r cleifion, eu teuluoedd a'r staff.</p>	<p>Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd</p>	<p>Bydd y nyrs arweiniol yn gweithio gyda tîm profiad y claf i wella'r trefniadau sydd ar waith i gasglu adborth ar brofiadau'r cleifion, gan ystyried sut y gellid defnyddio gwirfoddolwyr i helpu i wneud hyn.</p> <p>Mae ymateb i bryderon yn unol â Rheoliadau Gwranddo ar Bobl yn rhan o hyfforddiant arwain band 6 a 7. Mae system dysgu</p>	<p>Nyrs Arweiniol</p> <p>Nyrs Arweiniol</p>	<p>30 Mehefin 2026</p> <p>30 Mehefin 2026</p>

				<p>electronig i Gymru          Gyfan a fydd ar gael ar          ESR yn cael ei datblygu          ond yn y cyfamser,          bydd y Gwasanaeth          Iechyd Meddwl i Bobl          Hŷn yn trefnu          hyfforddiant wedi'i          deilwra ar ymateb i          bryderon</p> <p>Mae cyfarfod olrhain          pryderon wythnosol yn          cael ei gynnal â'r tîm          pryderon, y nyrs          arweiniol ac uwch-          nyrsys bob dydd Llun i          drafod pryderon agored          presennol a chedwir          cofnod o gynnydd.</p>	<p>Nyrs Arweiniol</p>	<p>31 Mai 2026</p>
--	--	--	--	--	-----------------------	--------------------

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Enw (priflythrennau): Jodie Carmichael-Dando**

**Swydd: Nyrs Arweiniol Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Bobl Hŷn**

**Dyddiad: 19 Mai 2026**